***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 414 (Cy. 89)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 12.45 p.m ar 8 Ebrill 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymrut - -* | *am 5.30 p.m ar 8 Ebrill 2020* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 77(1) a (2) a 90(3) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 6 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

### Diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010

**2.** Mae Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

### Diwygio Atodlen 1

**3.** Yn Atodlen 1, ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (1), ar y diwedd mewnosoder—

"(l) yn ddarostyngedig i is-baragraff (1A), bagiau y bwriedir iddynt gael eu defnyddio yn unig at ddiben cludo nwyddau a brynir—

(i) i'w danfon yn rhan o wasanaeth danfon nwyddau groser; neu

(**1**) 2008 p. 27. Yn rhinwedd adran 77(3)(b) o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol at ddiben gwneud rheoliadau o dan Atodlen 6 i'r Ddeddf honno. Mae diwygiadau i adran 77 ac Atodlen 6 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2010/2880 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/2184 (Cy. 236); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(ii) i'w casglu yn rhan o wasanaeth sy'n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser.";

(b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Dim ond tan ganol nos ar 8 Gorffennaf 2020 y mae bagiau sy'n dod o fewn paragraff (l) o is-baragraff (1) wedi eu hesemptio rhag y tâl o dan reoliad 6."

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Am 12.45 p.m ar 8 Ebrill 2020

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ac maent yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2880 (Cy. 238)) ("Rheoliadau 2010").

Mae Rheoliadau 2010, yn ddarostyngedig i esemptiadau penodol, yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr nwyddau sy'n cyflenwi bagiau siopa untro at ddiben caniatáu i'r nwyddau hynny gael eu cludo ymaith neu eu danfon godi tâl am bob bag a gyflenwir.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 (Esemptiadau) i Reoliadau 2010, drwy fewnosod darpariaeth newydd i esemptio bagiau a ddefnyddir i gludo nwyddau a brynir i'w danfon yn rhan o wasanaeth danfon nwyddau groser, neu i'w casglu yn rhan o wasanaeth sy'n darparu ar gyfer casglu nwyddau groser, rhag y tâl. Gweithredir yr esemptiad newydd yn ddarostyngedig i derfyn amser o dri mis.

Diben yr esemptiad dros dro yw cynyddu effeithlonrwydd systemau danfon, a lliniaru cyhyd ag y bo modd, y risg o drosglwyddo feirws COVID-19 (coronafeirws) drwy systemau danfon a chasglu, drwy ddefnyddio bagiau siopa untro i gludo nwyddau.

Oherwydd natur frys yr offeryn ni fu'n bosibl llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Effaith ar Fusnes. Er hynny, mae anghenion busnesau ac, yn benodol, y sector manwerthu wedi llywio i raddau helaeth y gwaith o baratoi'r Rheoliadau hyn.